EISTEDDFOD

# Panelau Canolog yr Eisteddfod

## Gwybodaeth i aelodau / darpar aelodau

**Beth yw Panel Canolog?**

Pwrpas y Panel Canolog yw

- Mae'r Panel yn cynnwys croestoriad o aelodau sydd ag arbenigedd, brofiad helaeth neu ddiddordeb yn y maes arbennig hwnnw - i gynnwys hyfforddwyr, academyddion, cystadleuwyr neu gynrychiolwyr o sefydliadau perthnasol gyda'r nod a'r bwriad o:
- Werthuso a goruchwylio'r testunau hynny fydd yn ymddangos yn Rhestr Testunau'r Eisteddfod gan gynnwys y rheolau ac amodau perthnasol i bob adran a phob testun.
- Adolygu'r Eisteddfod a fu gan nodi argymhellion yn nodi gwersi i'w dysgu ac unrhyw ymarfer da i'w barhau ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol

Bydd aelodaeth y Panel yn cael eu dewis gan is-bwyllgor dethol o blith y swyddogion presennol fydd yn edrych ar ragoriaethau'r enwebai a sicrhau bod y panel yn adlewyrchu ystod eang o leisiau, barn a syniadau.

**Beth yw'r ymrwymiad?**

Hyd tymor yr aelodau yw tair blynedd ond gellir ail-ethol aelod am dair blynedd arall. Yn arferol, mae'r Panelau yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

- **Cyfarfod diwedd Medi** – Adolygu'r Eisteddfod gan ystyried adroddiad Cadeirydd yr is-bwyllgor testun lleol perthnasol. Bydd cyfle i gynnig argymhellion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Diwylliannol
- <u>Sefydlu'r is-bwyllgorau lleol:</u> Penodi hyd at 3 cynrychiolydd o blith aelodaeth y Panelau i ymuno â phwyllgorau testun/diwylliannol lleol. Bydd y pwyllgorau lleol yn cael eu sefydlu yn ystod mis Hydref a bydd cynrychiolwyr y Panelau yn cael eu cyfethol i chwarae rôl ymgynghorol ac yn pontio rhwng y pwyllgor lleol a'r Panel Canolog.
- <u>Dewis testunau:</u> Yn ystod gweddill tymor yr Hydref a'r Gaeaf bydd yr is-bwyllgorau testun yn cwrdd o leiaf ddwywaith (cyfuniad o rithiol ac mewn person) a bydd gofyn i gynrychiolwyr o'r panel fynychu'r cyfarfodydd yma
- **Cyfarfod dechrau'r flwyddyn –** Yn gynnar yn y flwyddyn newydd bydd ail gyfarfod swyddogol yng nghylch blwyddyn y Panelau. Yn ystod y cyfarfod yma bydd y panel cyfan yn cael cyfle i gymeradwyo neu gynnig gwelliannau i ddewisiadau'r pwyllgor testun lleol. Bydd y cyfarfod yma'n digwydd yn rhithiol (oni bai bod galw penodol i gwrdd mewn person).

**Swyddogoion y Panel**

Er mwyn gweithredu'n effeithlon, bydd gofyn i bob Panel Canolog ethol neu gyfethol y swyddogion canlynol:

- **Cadeirydd**: sydd yn cadeirio'r cyfarfod y Panel ac yn gweithio'n agos gyda swyddfa'r Eisteddfod a Chadeirydd y pwyllgor testun lleol gydol y broses o ddatblygu a pharatoi'r rhestr testunau. Bydd y Cadeirydd yn penodi 2 gynrychiolydd o blith y Panel i fynychu'r cyfarfodydd testun lleol (bydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn cael eu cyfethol yn awtomatig). Y Cadeirydd fydd yn cynrychioli'r Panel yn y Pwyllgor Diwylliannol (sydd yn cwrdd yn dilyn cyfarfodydd

swyddogol y Panel) lle bydd disgwyl iddo/iddi gyflwyno adroddiad yn crynhoi argymhellion y Panel. Gellir dirprwyo'r cyfrifoldeb yma i'r -Is-gadeirydd / Ysgrifennydd os nad yw'r Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol.

- **Is-gadeirydd:** sydd â rôl i gefnogi'r Cadeirydd a dirprwyo yn ôl y galw ond ni fydd yr Is-gadeirydd yn olynu'r Cadeirydd. Bydd yr Is-gadeirydd neu'r Cadeirydd yn ogystal â 2 aelod yn cynrychioli'r Panel ar bwyllgorau testun lleol yn ystod y broses o ddewis testunau. Bydd yr Is-gadeirydd yn cynorthwyo swyddogion yr Eisteddfod i wirio presenoldeb cyn pob cyfarfod o'r Panel.
- **Ysgrifennydd:** sydd yn gyfrifol am gofnodion y Panelau a rhestru unrhyw bwyntiau gweithredu neu argymhellion perthnasol. Bydd yr ysgrifennydd, mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Cystadlu'r Eisteddfod yn gyfrifol ddiweddaru ffrâm testunau'r Eisteddfod yn cofnodi enwau darnau gosod posib a rhestr beirniad ayyb.

**Aelodaeth / Cworwm**

Bydd pob panel i gynnwys yr aelodaeth ganlynol

  - Cadeirydd
  - Is-gadeirydd
  - Ysgrifennydd
  - Cynrychiolydd(wyr) o sefydliadau (*os yn berthnasol*)
  - Hyd at 5 aelod cyfetholedig drwy broses galwad agored
  - Cadeirydd ac Ysgrifennydd y pwyllgor testunau lleol am gyfnod o ddwy flynedd i gychwyn o'r cyfarfod panel cyntaf yn dilyn sefydlu'r pwyllgorau testun lleol.
  - Bydd Cadeirydd y pwyllgor testun lleol yn parhau yn aelod o'r panel am flwyddyn arall ychwanegol yn dilyn yr Eisteddfod.
- Mae pob aelod, gan gynnwys cynrychiolwyr yr Eisteddfodau cyfredol, yn aelodau llawn o'r panel gyda'r hawl i fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r panel. Rhaid cael o leiaf <u>3 person</u> i fod yn bresennol i ffurfio cworwm cyn y medrir cynnal cyfarfod o'r panel
- Os bydd aelod o'r Panel Canolog yn absennol o ddau gyfarfod yn olynol heb anfon ymddiheuriad ymlaen llaw, cymerir yn ganiataol nad yw am weithredu a gall y Panel ddileu'r enw oddi ar restr yr aelodau. Bydd gan y Panel yr hawl i ail-restru enw ar gais yr aelod.

**Ar ddiwedd cyfnod:**

Ar ddiwedd cyfnod aelodaeth (3 blynedd lawn) e.e *Medi 2024 - Medi 2027* gellir ail-ethol i fod yn aelod o'r panel am gyfnod o dair blynedd ychwanegol (ee. *Medi 2027 – Medi 2030)*. Yn dilyn cwblhau ail gyfnod llawn, mae'n rhaid cael bwlch o leiaf o flwyddyn cyn gellir ystyried ethol yn ôl i'r panel. Yn achos person sydd wedi bod yn gadeirydd y panel yn ystod cyfnod, yna mae tymor yr aelodaeth yn cael ei ymestyn i wneud cyfanswm o naw mlynedd. Rhaid cael bwlch sydd nid llai na blwyddyn cyn y gellir ail-ethol person fel aelod.

# Panelau Canolog yr Eisteddfod | Central Panel

## Information for members and prospective members

**What is Central Panel (Panel Canolog)?**

The Panel includes a cross-section of members who have expertise, extensive experience or an interest in that field - to include coaches, academics, competitors or representatives from relevant organizations with the aim and intention of:

- Evaluating and supervising set-pieces that will appear in the Eisteddfod Syllabus including the rules and conditions relevant to each section and each subject.
- Reviewing the past Eisteddfod to prepare recommendations and identify lessons to be learned and develop any good practice for future Eisteddfods

The membership of the Panel will be chosen by a sub-committee selected from among the current officers who will look at the nominee's excellence to ensure that the panel reflects a wide range of voices, opinions and ideas.

**What is the commitment?**

The term of the members is three years, but a member can be re-elected for another three years. Normally, the Panels meet at least twice a year.

- **Meeting at the end of September** - Review of the Eisteddfod considering the Chairman's report of the relevant local subject sub-committee. There will be an opportunity to offer recommendations to be presented to the Cultural Committee (which consists of all the Central Panel chairpersons)
- <u>Establishing the local sub-committees</u>: Appoint up to 3 representatives from among the membership of the Panels to join and assist local text/cultural committees in their endeavours to produce the competition syllabus. The local committees will be established during October and the representatives of the Panels will be co-opted to play an advisory role to bridge between the local committee and the Central Panel.
- Selection of set-pieces and themes: During the rest of the Autumn and Winter terms the syllabus / subject sub-committees will meet at least twice (a combination of virtual and in person) and representatives from the panel will be required to attend these meetings
- **Beginning of the year meeting** – Early in the new year there will be a second official meeting in the Panelau's annual cycle. During this meeting the whole panel will have the opportunity to approve or propose improvements to the choices of the local subject committee. This meeting will take place virtually (unless there is a specific demand to meet in person).

**Panelau membership and officers**

To operate efficiently, each Central Panel will be required to elect or co-opt the following officers:

- **Chairperson**: who chairs the Panel meeting and works closely with the Eisteddfod office and the Chair of the local subject committee throughout the process of developing and preparing the competition syllabus. The Chair will appoint 2 representatives from among the Panel to attend the local subject meetings (the Chair or Vice-chair will be co-opted automatically). The

Chair will represent the Panel in the Cultural Committee (which congregate after the Panel meeting to approve any recommendations) where they will be expected to present a report summarizing the Panel's recommendations. This responsibility can be delegated to the Vice-chairman / Secretary if the Chair is unable to be present.

- **Vice-chairperson**: who has a role to support the Chairman and delegate as required but the Vice-chairman will not automatically succeed to the role of Chairperson. The Vice-chair or the Chair as well as 2 members will represent the Panel on local subject committees during the process of selecting set-pieces. The Vice-chair will also assist the Eisteddfod officials to check attendance before each meeting of the Panel.
- **Secretary**: responsible for the minutes of the Panels and listing any relevant action points or recommendations. The secretary, in collaboration with the Eisteddfod Competition Manager, will be responsible for updating the Eisteddfod's syllabus frame, recording the names of possible set pieces and adjudicators list etc.

**Membership / Quorum**

Each panel will include the following membership of

- Chairperson
- Vice-chairperson
- Secretary
- Representative(s) of organizations (if applicable)
- Up to 5 co-opted members through an open call process
- The Chairperson and Secretary of the local subject committee for a period of two years to start from the first panel meeting following the establishment of the local subject committees.
- The Chair of the local subject committee will remain a member of the panel for another additional year following the Eisteddfod.

All members, including representatives of the current Eisteddfodau, are full members of the panel with the right to be present at all meetings of the panel. There must be at least 3 people present to form a quorum before a panel meeting can be held

If a member of the Central Panel is absent from two consecutive meetings without sending an apology in advance, it is assumed that they do not want to participate and contribute which and will be removed from panel. The Panel will have the right to re-list a name at the member's request.

**At the end of a period:**

At the end of a membership period (3 full years) e.g. September 2024 - September 2027 it is possible to be re-elected to be a member of the panel for a period of three additional years (e.g. September 2027 - September 2030). Following the completion of a second full term, there must be a gap of at least one year before re-election to the panel can be considered. In the case of a person who has been chairperosn of the panel during a period, then the term of membership is extended to make a total of nine years. There must be a gap of not less than one year before a person can be re-elected as a member.